



*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

*Regulations made by the Welsh Ministers, laid before Senedd Cymru under section 45R of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c. 22), for approval by resolution of Senedd Cymru within twenty-eight days beginning with the day on which the instrument is made, subject to extension for periods of dissolution or recess for more than four days.*

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2021 Rhif 1485 (Cy. 386)**

**2021 No. 1485 (W. 386)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 25)  
2021**

**The Health Protection (Coronavirus  
Restrictions) (No. 5) (Wales)  
(Amendment) (No. 25) Regulations  
2021**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau") er mwyn—

- darparu bod Cymru gyfan yn symud o Lefel Rhybudd 0 i Lefel Rhybudd 2 ar 26 Rhagfyr 2021, gan olygu bod y cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau yn cymryd effaith;

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1609 (W. 335)) ("the principal Regulations") to—

- provide that the whole of Wales moves from Alert Level 0 to Alert Level 2 on 26 December 2021, meaning that the restrictions and requirements in Schedule 2 to the principal Regulations take effect;

- diwygio rheoliad 16 o'r prif Reoliadau i'w gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n gyfrifol am weithleoedd, mangreoeedd sydd ar agor i'r cyhoedd a cherbydau trafnidiaeth gyhoeddus ("mangreoeedd rheoleiddiedig") gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre, ac eithrio rhwng aelodau o grŵp, sy'n cynnwys dim mwy na 6 pherson neu aelodau o'r un aelwyd ar Lefelau Rhybudd 1 a 2, neu ar Lefelau Rhybudd 3 a 4, sy'n cynnwys aelodau o'r un aelwyd;
- darparu, wrth benderfynu i ba raddau y mae'n rhesymol cymryd mesur penodol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre, y caiff y person sy'n gyfrifol am y fangre roi sylw i fesurau eraill a gymerir i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws pan fo pobl yn ymgynnull yn y fangre;
- mewnosod rheoliad newydd 16ZA yn y prif Reoliadau i wneud darpariaeth benodol ynghylch y mesurau y mae rhaid eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoeedd trwyddedig, gan gynnwys gofyniad i reoli mynediad i'r fangre ac i gwsmeriaid fod yn eistedd pan fyddant yn archebu bwyd neu ddiod (yn ddarostyngedig i eithriadau);
- mewnosod rheoliad newydd 16ZB yn y prif Reoliadau i wneud darpariaeth benodol ynghylch y mesurau y mae rhaid eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoeedd manwerthu, gan gynnwys gofyniad i reoli mynediad i'r fangre, i ddarparu cynhyrchion diheintio dwylo, i ddarparu mesurau ychwanegol i ddiheintio basgedi a throliau etc., ac i arwyddion a chyhoeddiadau atgoffa pobl i gynnal pellter o 2 fetr ac i wisgo gorchudd wyneb;
- adfer y gofyniad i wisgo gorchudd wyneb mewn mangreoeedd lle y gwerthir bwyd neu ddiod, neu lle y darperir bwyd neu ddiod fel arall, i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre, ac eithrio wrth eistedd;
- gwneud mân ddiwygiad sy'n ei gwneud yn glir bod y rheini sy'n chwarae mewn digwyddiad camp tîm (nad yw'n gamp broffesiynol) neu sy'n ymwneud â hyfforddi tîm mewn digwyddiad o'r fath i'w trin fel pe baent yn gweithio yn y digwyddiad ac felly nad ydynt yn cyfrif tuag at unrhyw derfyn ar niferoedd yn y digwyddiad (yn yr un ffordd ag y mae dyfarnwyr ac eraill sy'n ymwneud â chynnal y digwyddiad yn cael eu hystyried fel pe baent
- amend regulation 16 of the principal Regulations to require persons responsible for workplaces, premises open to the public and public transport vehicles ("regulated premises") to take all reasonable measures to ensure that a distance of 2 metres is maintained between persons on the premises, except between the members of a group, comprising of no more than 6 persons or members of the same household at Alert Levels 1 and 2, or at Alert Levels 3 and 4, comprising of members of the same household;
- provide that in determining the extent to which it is reasonable to take a particular measure to ensure that a distance of 2 metres is maintained between persons on the premises, the person responsible for the premises may have regard to other measures taken to mitigate the risk of exposure to coronavirus where people gather on the premises;
- insert new regulation 16ZA into the principal Regulations to make specific provision about the measures that must be taken to minimise the risk of exposure to coronavirus on licensed premises, including a requirement to control entry to the premises and for customers to be seated when ordering food or drink (subject to exceptions);
- insert new regulation 16ZB into the principal Regulations to make specific provision about the measures that must be taken to minimise the risk of exposure to coronavirus on retail premises, including a requirement to control entry to the premises, for provision of hand sanitisation products, for additional sanitisation of baskets and trolleys etc., and for signs and announcements to remind people to maintain 2 metre distancing and to wear a face covering;
- reinstate the requirement to wear a face covering in premises where food or drink is sold, or otherwise provided, for consumption on the premises, other than when seated;
- make a minor amendment clarifying that those playing in a (non-professional) team sport event or involved in coaching a team at such an event are to be treated as though they are working at the event and therefore do not count towards any limit on numbers at the event (in the same way that referees and others involved in running the event are considered to be either working or

naill ai'n gweithio neu'n gwirfoddoli yn y digwyddiad ac felly nad ydynt yn cyfrif tuag at y terfyn ychwaith);

- yn diwygio Atodlen 2 (Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 2) i'r prif Reoliadau er mwyn—
  - (o ystyried penderfyniad a gymerwyd i ddarparu cyngor ar leihau cysylltiad cymdeithasol yn hytrach na gosod cyfyngiadau cyfreithiol) dileu'r cyfyngiadau ar ymgynnull mewn anheddau preifat ac mewn llety gwyliau, ond mae hyn yn ddarostyngedig iddi fod yn drosedd cymryd rhan mewn cynulliad o fwy na 30 o bobl o dan do neu fwy na 50 o bobl yn yr awyr agored yn y lleoedd hyn;
  - newid yr esemptiad i'r cyfyngiad ar ddiwyddiadau i alluogi unrhyw nifer o bobl i fynd i ddathliad priodas neu ddathliad person a fu farw'n ddiweddar a gynhelir mewn mangre reoleiddiedig (ond mae hyn yn ddarostyngedig i'r uchafswm niferoedd a ganiateir yn y fangre yn unol â'r asesiad risg a mesurau rhesymol eraill a gymerir o dan reoliad 16 o'r prif Reoliadau, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol);
  - newid y rhestr o fusnesau y mae rhaid cau eu mangreoedd i hepgor lleoliadau adloniant i oedolion a ranciau sglefrio iâ;
- gwneud diwygiadau sy'n cyfateb i'r rheini a wneir i Atodlen 2 i Atodlen 1 (Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 1).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn unol â'r Cod, ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, oherwydd bod angen eu rhoi yn eu lle ar frys i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

volunteering at the event and also do not count towards the limit);

- amend Schedule 2 (Alert Level 2 Restrictions) to the principal Regulations to—
  - (in view of a decision taken to provide advice on minimising social contact rather than imposing legal restrictions) remove the restrictions on gathering in private dwellings and in holiday accommodation, however this is subject to it being an offence to participate in a gathering of more than 30 people indoors or more than 50 people outdoors in these places;
  - change the exemption to the restriction on events to enable any number of people to attend a celebration of a marriage or a celebration of a recently deceased person held at regulated premises (but this is subject to the maximum numbers that are permitted on the premises in accordance with the risk assessment and other reasonable measures taken under regulation 16 of the principal Regulations, including social distancing);
  - change the list of businesses whose premises have to be closed to omit adult entertainment venues and ice skating rinks;
- make amendments corresponding to those made to Schedule 2 to Schedule 1 (Alert Level 1 Restrictions).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. In accordance with the Code, a regulatory impact assessment as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations has not been carried out, due to the need to put them in place urgently to deal with a serious and imminent threat to public health.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2021 Rhif 1485 (Cy. 386)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 25)  
2021**

*Gwnaed* 22 Rhagfyr 2021

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru* 23 Rhagfyr 2021

*Yn dod i rym am 6.00 a.m. ar 26 Rhagfyr 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

*Regulations made by the Welsh Ministers, laid before Senedd Cymru under section 45R of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c. 22), for approval by resolution of Senedd Cymru within twenty-eight days beginning with the day on which the instrument is made, subject to extension for periods of dissolution or recess for more than four days.*

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2021 No. 1485 (W. 386)**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

**The Health Protection (Coronavirus  
Restrictions) (No. 5) (Wales)  
(Amendment) (No. 25) Regulations  
2021**

*Made* 22 December 2021

*Laid before Senedd Cymru* 23 December 2021

*Coming into force at 6.00 a.m. on  
26 December 2021*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

---

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 25) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 a.m. ar 26 Rhagfyr 2021.

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 16—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) o flaen “Cam 3” mewnosoder—

“Cam 3

Cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

(a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau o dan do yn y fangre, ac eithrio rhwng aelodau o grŵp a ganiateir;

(b) pan fo'n ofynnol i bersonau aros o dan do i fynd i'r fangre, y cynhelir pellter o 2 fetr rhyngddynt, ac eithrio rhwng aelodau o grŵp a ganiateir.”;

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

### Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) (No. 25) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force at 6.00 a.m. on 26 December 2021.

### Amendment to the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 16—

(a) in paragraph (1)—

(i) before “Step 3” insert—

“Step 3

Take all reasonable measures to ensure—

(a) that a distance of 2 metres is maintained between any persons indoors on the premises, except between members of a permitted group;

(b) where persons are required to wait indoors to enter the premises, that a distance of 2 metres is maintained between them, except between members of a permitted group.”;

---

(1) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), S.I. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cy. 160), O.S. 2021/668 (Cy. 169), O.S. 2021/686 (Cy. 172), O.S. 2021/722 (Cy. 183), O.S. 2021/862 (Cy. 201), O.S. 2021/925 (Cy. 210), O.S. 2021/970 (Cy. 228), O.S. 2021/1119 (Cy. 271), O.S. 2021/1131 (Cy. 274), O.S. 2021/1212 (Cy. 303), O.S. 2021/1304 (Cy. 334), O.S. 2021/1363 (Cy. 358), O.S. 2021/1407 (Cy. 366), O.S. 2021/1468 (Cy. 376) ac O.S. 2021/1477 (Cy. 379).

---

(1) S.I. 2020/1609 (W. 335) as amended by S.I. 2020/1610 (W. 336), S.I. 2020/1623 (W. 340), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/57 (W. 13), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/103 (W. 28), S.I. 2021/172 (W. 40), S.I. 2021/210 (W. 52), S.I. 2021/307 (W. 79), S.I. 2021/413 (W. 133), S.I. 2021/502 (W. 150), S.I. 2021/542 (W. 154), S.I. 2021/583 (W. 160), S.I. 2021/668 (W. 169), S.I. 2021/686 (W. 172), S.I. 2021/722 (W. 183), S.I. 2021/862 (W. 201), S.I. 2021/925 (W. 210), S.I. 2021/970 (W. 228), S.I. 2021/1119 (W. 271), S.I. 2021/1131 (W. 274), S.I. 2021/1212 (W. 303), S.I. 2021/1304 (W. 334), S.I. 2021/1363 (W. 358), S.I. 2021/1407 (W. 366), S.I. 2021/1468 (W. 376) and S.I. 2021/1477 (W. 379).

- (ii) daw'r cyfeiriad presennol at "Cam 3" yn "Cam 4";
- (b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—  
 "(1A) Wrth benderfynu i ba raddau y mae'n rhesymol cymryd mesur penodol o dan Gam 3, caniateir rhoi sylw i fesurau a gymerir o dan Gam 4 i liniaru'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws sy'n codi pan fo unrhyw berson o fewn pellter o 2 fetr i berson arall.";
- (c) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—  
 "(4A) At ddibenion Cam 3, ystyr "grŵp a ganiateir" yw—
- (a) pan fo'r fangre mewn ardal Lefel Rhybudd 1 neu ardal Lefel Rhybudd 2, grŵp—
- (i) sy'n cynnwys dim mwy na 6 o bobl, heb gyfrif unrhyw bersonau o dan 11 oed nac unrhyw ofalwr i berson yn y grŵp, neu
- (ii) sy'n cynnwys aelodau o'r un aelwyd ac unrhyw ofalwr i aelod o'r aelwyd;
- (b) pan fo'r fangre mewn ardal Lefel Rhybudd 3 neu ardal Lefel Rhybudd 4, grŵp sy'n cynnwys aelodau o'r un aelwyd ac unrhyw ofalwr i aelod o'r aelwyd."
- (3) Ar ôl rheoliad 16 mewnosoder—

**"Mesurau penodol sy'n gymwys i fangroedd trwyddedig**

**16ZA.**—(1) Pan fo rheoliad 16(1) yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre, rhaid i'r mesurau sydd i'w cymryd gan y person cyfrifol o dan Gam 4 o'r rheoliad hwnnw gynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt)—

- (a) cael person sy'n rheoli mynediad i'r fangre, ac eithrio mewn sinemâu a theatrau;
- (b) ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid fod yn eistedd yn y fangre yn unrhyw le ac eithrio wrth far—
- (i) pan fyddant yn archebu bwyd neu ddiod;
- (ii) pan weinir bwyd neu ddiod iddynt, a
- (iii) pan fyddant yn bwyta neu'n yfed.

- (ii) the existing reference to "Step 3" becomes "Step 4";
- (b) after paragraph (1) insert—  
 "(1A) In determining the extent to which it is reasonable to take a particular measure under Step 3, regard may be had to measures taken under Step 4 to mitigate the risk of exposure to coronavirus that arises when any person is within a distance of 2 metres of another person.";
- (c) after paragraph (4) insert—  
 "(4A) For the purposes of Step 3, "permitted group" means—
- (a) where the premises are in an Alert Level 1 area or an Alert Level 2 area, a group which—
- (i) consists of no more than 6 people, not counting any persons under the age of 11 or any carer of a person in the group, or
- (ii) consists of members of the same household and any carer of a member of the household;
- (b) where the premises are in an Alert Level 3 area or an Alert Level 4 area, a group which consists of members of the same household and any carer of a member of the household."
- (3) After regulation 16 insert—

**"Specific measures applicable to licensed premises**

**16ZA.**—(1) Where regulation 16(1) applies to a person responsible for premises authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises, the measures to be taken by the responsible person under Step 4 of that regulation must include (but are not limited to)—

- (a) having a person controlling entry to the premises, apart from in cinemas and theatres;
- (b) requiring customers to be seated in the premises in any place other than at a bar—
- (i) when ordering food or drink;
- (ii) when being served with food or drink, and
- (iii) when consuming food or drink.

(2) Ond pan fo bwyd yn cael ei ddarparu yn y fangre ar sail bwffe, caiff cwsmeriaid ddewis bwyd o'r bwffe a dychwelyd i'r man lle y maent yn eistedd.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i—

- (a) ffreuturau yn y gweithle, neu
- (b) mangreoddedd mewn sefydliad addysgol.

(4) Nid yw paragraff (1)(b) yn gymwys mewn perthynas ag—

- (a) cwsmeriaid mewn—
  - (i) sinemâu, neu
  - (ii) theatrau,

pan fo'r cwsmeriaid hynny yn eistedd fel arfer yn y fangre (ac eithrio pan fyddant yn archebu bwyd neu ddiod neu pan weinir bwyd neu ddiod iddynt) ar gyfer arddangosiad ffilm neu berfformiad theatraidd byw, neu

- (b) personau sy'n mynd i gynulliad neu ddigwyddiad rheoleiddiedig.

(5) At ddiben paragraff (4), mae perfformiad theatraidd "byw" yn un y mae'r cwsmer yn dyst iddo ac eithrio drwy ddarllediad.

(6) At ddibenion paragraff (1)—

- (a) nid yw bwyd neu ddiod a werthir mewn llety gwyliau neu lety teithio fel rhan o wasanaeth ystafell i'w drin neu i'w thrin fel pe bai'n cael ei werthu i'w fwyta yn y fangre neu ei gwerthu i'w hyfed yn y fangre;
- (b) mae bwyd neu ddiod a werthir i'w fwyta neu i'w hyfed mewn ardal sy'n gyfagos i'r fangre lle y mae seddi yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid i'w drin neu i'w thrin fel pe bai'n cael ei werthu i'w fwyta yn y fangre neu ei gwerthu i'w hyfed yn y fangre.

(7) Pan fo mangre reoleiddiedig nad yw wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre yn caniatáu i gwsmeriaid yfed eu halcohol eu hunain yn y fangre, mae paragraffau (1) i (3) yn gymwys i'r fangre honno fel y maent yn gymwys i fangreoddedd sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre.

(2) But where food is provided at the premises on a buffet basis, customers may select food from the buffet and return to where they are seated.

(3) Paragraph (1) does not apply to—

- (a) workplace canteens, or
- (b) premises in an educational establishment.

(4) Paragraph (1)(b) does not apply in relation to—

- (a) customers at—
  - (i) cinemas, or
  - (ii) theatres,

where those customers are normally seated at the premises (other than when ordering food or drink or being served with food or drink) for the showing of a film or a live theatrical performance, or

- (b) persons attending a regulated gathering or event.

(5) For the purpose of paragraph (4), a "live" theatrical performance is one the customer is witnessing other than by means of a broadcast.

(6) For the purposes of paragraph (1)—

- (a) food or drink sold in holiday or travel accommodation as part of room service is not to be treated as being sold for consumption on the premises;
- (b) food or drink sold for consumption in an area adjacent to the premises where seating is made available for customers is to be treated as being sold for consumption on the premises.

(7) Where regulated premises not authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises allow customers to consume their own alcohol on the premises, paragraphs (1) to (3) apply to those premises as they apply to premises that are authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises.

## Mesurau penodol sy'n gymwys i fangreoddi manwerthu

**16ZB.** Pan fo rheoliad 16(1) yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am fangre fanwerthu busnes sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau ar gyfer eu gwerthu neu eu llogi yn y fangre honno (gan gynnwys busnesau sy'n gwerthu bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre), rhaid i'r mesurau sydd i'w cymryd gan y person cyfrifol o dan Gam 4 o'r rheoliad hwnnw gynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt)—

- (a) mesurau ar gyfer rheoli mynediad i'r fangre a chyfyngu ar nifer y cwsmeriaid sydd yn y fangre ar unrhyw adeg;
- (b) darparu cynhyrchion diheintio dwylo neu gyfleusterau golchi dwylo i'w defnyddio gan gwsmeriaid pan fyddant yn mynd i'r fangre ac yn ymadael â hi;
- (c) mesurau i ddiheintio unrhyw fasgedi, trolïau neu gynwysyddion tebyg a ddarperir i gwsmeriaid eu defnyddio yn y fangre;
- (d) er mwyn atgoffa cwsmeriaid i gynnal pellter o 2 fetr rhyngddynt ac i wisgo gorchudd wyneb—
  - (i) arddangos arwyddion a chymhorthion gweledol eraill;
  - (ii) gwneud cyhoeddiadau yn rheolaidd.”

(4) Yn rheoliad 20—

- (a) ym mharagraff (1), hepgorer “, ac eithrio mangreoddi lle y gwerthir bwyd neu ddiod, neu lle y darperir bwyd neu ddiod fel arall, i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre”;
- (b) ar ôl paragraff (3)(g) mewnosoder—

“(h) pan fo P yn eistedd mewn mangre lle y gwerthir bwyd neu ddiod, neu lle y'i darperir fel arall, i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre.”;

(5) Yn rheoliad 26, ar ôl “16(1)” mewnosoder “, 16ZA(1), 16ZB”.

(6) Yn rheoliad 28—

- (a) ym mharagraff (1), hepgorer is-baragraffau (a) a (b);
- (b) ym mharagraff (3)—
  - (i) yn is-baragraff (a), hepgorer “neu (1A)”;
  - (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “(3)” rhodder “(2A)”.

## Specific measures applicable to retail premises

**16ZB.** Where regulation 16(1) applies to a person responsible for retail premises of a business offering goods or services for sale or hire in those premises (including businesses selling food or drink for consumption off the premises), the measures to be taken by the responsible person under Step 4 of that regulation must include (but are not limited to)—

- (a) measures for controlling entry to the premises and limiting the number of customers who are on the premises at any one time;
- (b) provision of hand sanitisation products or hand washing facilities for use by customers when they enter and exit the premises;
- (c) measures to sanitise any baskets, trolleys or similar containers provided for use by customers on the premises;
- (d) in order to remind customers to maintain a distance of 2 metres between each other and to wear a face covering—
  - (i) displaying signs and other visual aids;
  - (ii) making announcements on a regular basis.”

(4) In regulation 20—

- (a) in paragraph (1), omit “, other than premises where food or drink is sold, or otherwise provided, for consumption on the premises”;
- (b) after paragraph (3)(g) insert—

“(h) where P is seated in premises where food or drink is sold, or otherwise provided, for consumption on the premises.”;

(5) In regulation 26, after “16(1)” insert “, 16ZA(1), 16ZB”.

(6) In regulation 28—

- (a) in paragraph (1), omit sub-paragraphs (a) and (b);
- (b) in paragraph (3)—
  - (i) in sub-paragraph (a), omit “or (1A)”;
  - (ii) in sub-paragraph (b), for “(3)” substitute “(2A)”.



(7) Yn rheoliad 37—

- (a) ym mharagraff (1)—
- (i) yn is-baragraff (a), yn lle “1(1) neu 2(1) neu (1A)” rhodder “2(1)”;
  - (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “1(1) neu 2(1)” rhodder “2(1), (2A)”;
- (b) ym mharagraff (2)—
- (i) yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “sy’n” rhodder “sydd, heb esgus rhesymol, yn”;
  - (ii) ym mharagraff (a), ar ôl “annedd breifat” mewnosoder “neu mewn llety gwyliau neu lety teithio”;
  - (iii) ar ôl paragraff (a), mewnosoder “, a”;
  - (iv) yn lle is-baragraffau (b) ac (c) rhodder—

“(b) lle y mae—

- (i) mwy na 30 o bobl yn bresennol, pan fo’r cynulliad yn cael ei gynnal i unrhyw raddau o dan do, neu
- (ii) mwy na 50 o bobl yn bresennol, pan fo’n cael ei gynnal yn yr awyr agored.”.

(8) Yn rheoliad 39(3)(a)(i), yn lle “30” rhodder “50”.

(9) Yn rheoliad 57—

- (a) ym mharagraff (1)(h), yn lle paragraffau (iii), (iv) a (v) rhodder—
- “(iii) sy’n “mabolgampwr elit domestig” neu’n “mabolgampwr elit rhyngwladol” o fewn yr ystyr a roddir i “domestic elite sportsperson” ac “international elite sportsperson” gan—
- (aa) paragraff 44(2) o Atodlen 4 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Lloegr) 2021(1);
  - (bb) paragraff 42(2) o Atodlen 4 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Yr Alban) 2021(2);

(7) In regulation 37—

- (a) in paragraph (1)—
- (i) in sub-paragraph (a), for “1(1) or 2(1) or (1A)” substitute “2(1)”;
  - (ii) in sub-paragraph (b), for “1(1) or 2(1)” substitute “2(1), (2A)”;
- (b) in paragraph (2)—
- (i) in the words before paragraph (a), after “A person who” insert “, without reasonable excuse,”;
  - (ii) in paragraph (a), after “private dwelling” insert “or in holiday or travel accommodation”;
  - (iii) after paragraph (a), insert “, and”;
  - (iv) for sub-paragraphs (b) and (c) substitute—

“(b) which consists of—

- (i) more than 30 people, where the gathering is held to any extent indoors, or
- (ii) more than 50 people, where it is held outdoors.”.

(8) In regulation 39(3)(a)(i), for “30” substitute “50”.

(9) In regulation 57—

- (a) in paragraph (1)(h), for paragraphs (iii), (iv) and (v) substitute—
- “(iii) is a “domestic elite sportsperson” or an “international elite sportsperson” within the meaning given by—
- (aa) paragraph 44(2) of Schedule 4 to the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Operator Liability) (England) Regulations 2021(1);
  - (bb) paragraph 42(2) of Schedule 4 to the Health Protection (Coronavirus) (International Travel and Operator Liability) (Scotland) Regulations 2021(2);

(1) O.S. 2021/582.  
(2) O.S.A. 2021/322.

(1) S.I. 2021/582.  
(2) S.S.I. 2021/322.

- |   |  |
|---|--|
| <p>(cc) paragraffau 58 a 59 o Atodlen 4 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Gogledd Iwerddon) 2021(1);”</p>   | <p>(cc) paragraphs 58 and 59 of Schedule 4 to the Health Protection (Coronavirus, International Travel) Regulations (Northern Ireland) 2021(1);”</p>   |
| <p>(b) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—<br/> “(4A) At ddibenion y Rheoliadau hyn, pan fo digwyddiad yn cynnwys chwarae camp tîm, mae aelodau tîm sy’n chwarae yn y digwyddiad ac unrhyw berson sy’n darparu hyfforddiant neu gynhorthwy arall i’r tîm, i’w trin fel pe baent yn gweithio yn y digwyddiad.”</p> | <p>(b) after paragraph (4) insert—<br/> “(4A) For the purposes of these Regulations, where an event includes the playing of a team sport, members of a team playing in the event and any person providing coaching or other assistance to the team, are to be treated as if working at the event.”</p> |
| <p>(10) Yn Atodlen 1—</p>   | <p>(10) In Schedule 1—</p>   |
| <p>(a) hepgorer paragraff 1;</p>  | <p>(a) omit paragraph 1;</p>   |
| <p>(b) ym mharagraff 2—</p>   | <p>(b) in paragraph 2—</p>   |
| <p>(i) yn is-baragraff (1), hepgorer “neu mewn llety gwyliau neu lety teithio”;</p>   | <p>(i) in sub-paragraph (1), omit “or in holiday or travel accommodation”;</p>   |
| <p>(ii) hepgorer is-baragraff (1A);</p>   | <p>(ii) omit sub-paragraph (1A);</p>   |
| <p>(iii) yn is-baragraff (2), yn lle “is-baragraffau (1) ac (1A)” rhodder “is-baragraff (1)”;</p>   | <p>(iii) in sub-paragraph (2), for “sub-paragraphs (1) and (1A)” substitute “sub-paragraph (1)”;</p>   |
| <p>(iv) yn is-baragraff (5)(i), hepgorer “ac eithrio mewn llety gwyliau neu lety teithio”;</p>  | <p>(iv) in sub-paragraph (5)(i), omit “other than at holiday or travel accommodation”;</p>   |
| <p>(v) hepgorer is-baragraff (5)(ka);</p>   | <p>(v) omit sub-paragraph (5)(ka);</p>   |
| <p>(vi) ar ôl is-baragraff (5) mewnosoder—<br/> “(5A) At ddibenion y paragraff hwn, mae cynulliad mewn llety gwyliau neu lety teithio i’w drin fel pe bai’n gynulliad mewn annedd breifat.”;</p>  | <p>(vi) after sub-paragraph (5) insert—<br/> “(5A) For the purposes of this paragraph, a gathering in holiday or travel accommodation is to be treated as if it were a gathering in a private dwelling.”;</p>  |
| <p>(c) hepgorer paragraff 3;</p>  | <p>(c) omit paragraph 3;</p>   |
| <p>(d) ym mharagraff 4(2)—</p>  | <p>(d) in paragraph 4(2)—</p>  |
| <p>(i) ym mharagraff (a), yn lle “baragraff 1” rhodder “reoliad 37(2)”;</p>   | <p>(i) in paragraph (a), for “paragraph 1” substitute “regulation 37(2)”;</p>  |
| <p>(ii) ym mharagraff (g), hepgorer “, mewn mangre ac eithrio llety gwyliau neu lety teithio,”;</p>   | <p>(ii) in paragraph (g), omit “, in premises other than holiday or travel accommodation,”;</p>  |
| <p>(iii) ym mharagraff (h), hepgorer “(ac eithrio mewn llety gwyliau neu lety teithio)”;</p>  | <p>(iii) in paragraph (h), omit “(other than at holiday or travel accommodation)”;</p>   |
| <p>(iv) yn lle paragraff (i) rhodder—<br/> “(i) digwyddiad a gynhelir yn yr awyr agored lle nad yw mwy na 50 o bobl yn bresennol;”</p>  | <p>(iv) for paragraph (i) substitute—<br/> “(i) an event that is held outdoors at which no more than 50 people are in attendance;”</p>   |
| <p>(v) hepgorer is-baragraffau (j) a (k);</p>   | <p>(v) omit sub-paragraphs (j) and (k);</p>  |
| <p>(e) ym mharagraff 5(4A), ar ôl “rheoliad 16” mewnosoder “, 16ZA neu 16ZB”;</p>   | <p>(e) in paragraph 5(4A), after “regulation 16” insert “, 16ZA or 16ZB”;</p>  |
| <p>(f) ym mharagraff 7(1), hepgorer “neu 10”;</p>   | <p>(f) in paragraph 7(1), omit “or 10”;</p>  |

- (g) hepgorer paragraff 10.
- (11) Yn Atodlen 2—
- (a) hepgorer paragraff 1;
- (b) ym mharagraff 2—
- (i) yn lle is-baragraff (1)(a) rhodder—
- “(a) sy’n digwydd o dan do, neu yn yr awyr agored mewn mangre reoleiddiedig, ac eithrio mewn annedd breifat, a”;
- (ii) yn lle is-baragraff (2) rhodder—
- “(2) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynulliad o’r fath os yw’r holl bersonau sy’n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o’r un aelwyd.
- (2A) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad—
- (a) sy’n digwydd yn yr awyr agored ac eithrio—
- (i) mewn mangre reoleiddiedig, neu
- (ii) mewn annedd breifat, a
- (b) lle y mae mwy na 50 o bobl yn bresennol, heb gynnwys—
- (i) unrhyw blentyn o dan 11 oed,
- (ii) gofalwr person sy’n cymryd rhan yn y cynulliad, neu
- (iii) pan fo’r cynulliad yn gynulliad rheoleiddiedig (gweler rheoliad 57(7)), personau sy’n gweithio, neu sy’n darparu gwasanaethau gwirfoddol, mewn perthynas â chynnal y cynulliad.”;
- (iii) hepgorer is-baragraff (3);
- (iv) hepgorer is-baragraff (3A);
- (v) hepgorer is-baragraff (3B);
- (vi) yn is-baragraff (4), ar ôl “(1)” mewnosoder “, (2A)”;
- (vii) yn is-baragraff (6)(e)—
- (aa) yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), yn lle “cynulliad o dan do o ddim mwy na 30 o bobl mewn mangre reoleiddiedig, neu gynulliad yn yr awyr agored o ddim mwy na 50 o bobl mewn mangre o’r fath, heb gyfrif (yn y naill achos na’r llall) bersonau o dan 11 oed na phersonau sy’n gweithio yn y fangre,” rhodder “cynulliad mewn mangre reoleiddiedig”;

- (g) omit paragraph 10.
- (11) In Schedule 2—
- (a) omit paragraph 1;
- (b) in paragraph 2—
- (i) for sub-paragraph (1)(a) substitute—
- “(a) takes place indoors, or outdoors in regulated premises, other than in a private dwelling, and”;
- (ii) for sub-paragraph (2) substitute—
- “(2) But a person may participate in such a gathering if all the persons participating in the gathering are members of the same household.
- (2A) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering which—
- (a) takes place outdoors other than—
- (i) in regulated premises, or
- (ii) in a private dwelling, and
- (b) consists of more than 50 people, not including—
- (i) any child under the age of 11 ,
- (ii) the carer of a person who is participating in the gathering, or
- (iii) where the gathering is regulated (see regulation 57(7)), persons working, or providing voluntary services, in relation to the holding of the gathering.”;
- (iii) omit sub-paragraph (3);
- (iv) omit sub-paragraph (3A);
- (v) omit sub-paragraph (3B);
- (vi) in sub-paragraph (4), after “(1)” insert “, (2A)”;
- (vii) in sub-paragraph (6)(e)—
- (aa) in the words before sub-paragraph (i), for “an indoor gathering of no more than 30 people at regulated premises, or an outdoor gathering of no more than 50 people at such premises, not counting (in either case) persons under the age of 11 or persons working at the premises,” substitute “a gathering at regulated premises”;

- (bb) yn is-baragraff (i), yn lle “26 Mawrth 2020” rhodder “1 Rhagfyr 2021”;
- (cc) yn is-baragraff (ii), yn lle “26 Mawrth 2020” rhodder “1 Rhagfyr 2021”;
- (viii) yn is-baragraff (6)(k)—
- (aa) hepgorer “, mewn mangre ac eithrio llety gwyliau neu lety teithio,”;
- (bb) yn lle “personau a oedd o dan 18 oed ar 31 Awst 2020” rhodder “plant”;
- (ix) ar ôl is-baragraff (7) mewnosoder—
- “(8) At ddibenion y paragraff hwn, mae cynulliad mewn llety gwyliau neu lety teithio i’w drin fel pe bai’n gynulliad mewn annedd breifat.”;
- (c) hepgorer paragraff 3;
- (d) ym mharagraff 4—
- (i) yn lle is-baragraff (1) rhodder—
- “(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiad oni bai—
- (a) bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr awyr agored,
- (b) nad yw mwy na 50 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg, ac
- (c) os cynhelir y digwyddiad mewn mangre reoleiddiedig, nad yw alcohol yn cael ei yfed.”;
- (ii) yn is-baragraff (2)(a), yn lle “baragraff 1” rhodder “reoliad 37(2)”;
- (iii) yn is-baragraff (2)(e)—
- (aa) yn lle “cynulliad o dan do mewn mangre reoleiddiedig lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, neu gynulliad yn yr awyr agored mewn mangre reoleiddiedig lle nad yw mwy na 50 o bobl yn bresennol,” rhodder “cynulliad mewn mangre reoleiddiedig”;
- (bb) ym mharagraff (i), yn lle “26 Mawrth 2020” rhodder “1 Rhagfyr 2021”;
- (cc) ym mharagraff (ii), yn lle “26 Mawrth 2020” rhodder “1 Rhagfyr 2021”;
- (bb) in sub-paragraph (i), for “26 March 2020” substitute “1 December 2021”;
- (cc) in sub-paragraph (ii), for “26 March 2020” substitute “1 December 2021”;
- (viii) in sub-paragraph (6)(k)—
- (aa) omit “, in premises other than holiday or travel accommodation,”;
- (bb) for “persons who were aged under 18 on 31 August 2020” substitute “children”;
- (ix) after sub-paragraph (7) insert—
- “(8) For the purposes of this paragraph, a gathering in holiday or travel accommodation is to be treated as if it were a gathering in a private dwelling.”;
- (c) omit paragraph 3;
- (d) in paragraph 4—
- (i) for sub-paragraph (1) substitute—
- “(1) No person may, without a reasonable excuse, be involved in organising an event unless—
- (a) the event is held outdoors,
- (b) no more than 50 people attend at any time, and
- (c) if the event is held on regulated premises, no alcohol is consumed.”;
- (ii) in sub-paragraph (2)(a), for “paragraph 1” substitute “regulation 37(2)”;
- (iii) in sub-paragraph (2)(e)—
- (aa) for “an indoor gathering at regulated premises where no more than 30 people are in attendance, or an outdoor gathering at regulated premises where no more than 50 people are in attendance,” substitute “a gathering at regulated premises”;
- (bb) in paragraph (i), for “26 March 2020” substitute “1 December 2021”;
- (cc) in paragraph (ii), for “26 March 2020” substitute “1 December 2021”;

(iv) yn lle is-baragraff (2)(g) rhodder—

“(g) cynulliad rheoleiddiedig sy’n digwydd yn yr awyr agored at ddibenion protestio, neu bicedu a gynhelir yn unol â Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992;”;

(v) yn is-baragraff (2)(h), hepgorer “, mewn mangre ac eithrio llety gwyliau neu lety teithio,”;

(vi) yn is-baragraff (2)(l), hepgorer “neu yn yr awyr agored mewn llety gwyliau neu lety teithio ac”;

(vii) hepgorer is-baragraff (2)(m);

(e) ym mharagraff 5(4A), ar ôl “rheoliad 16” mewnosoder “, 16ZA neu 16ZB”;

(f) ym mharagraff 7(1), hepgorer “neu 10”;

(g) hepgorer paragraffau 10 ac 11.

(12) Yn Atodlen 5, yng ngholofn 3 o’r tabl ym mharagraff 1, yn lle “Dim lefel rhybudd” rhodder “Lefel Rhybudd 2”.

(iv) for sub-paragraph (2)(g) substitute—

“(g) a regulated gathering that takes place outdoors for the purposes of protest, or picketing carried out in accordance with the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992;”;

(v) in sub-paragraph (2)(h), omit “, in premises other than holiday or travel accommodation,”;

(vi) in sub-paragraph (2)(l), omit “or outdoors at holiday or travel accommodation and”;

(vii) omit sub-paragraph (2)(m);

(e) in paragraph 5(4A), after “regulation 16” insert “, 16ZA or 16ZB”;

(f) in paragraph 7(1), omit “or 10”;

(g) omit paragraphs 10 and 11.

(12) In Schedule 5, in column 3 of the table in paragraph 1, for “No alert level” substitute “Alert Level 2”.

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
22 Rhagfyr 2021

©© Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

First Minister, one of the Welsh Ministers  
22 December 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.





£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/1485>

ISBN 978-0-348-39214-2



9 780348 392142